

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – Rhan 2: Adrannau 14 ac 15

Dyletswyddau i asesu anghenion am ofal a chymorth a threfnu bod gwasanaethau ataliol yn cael eu darparu o fewn ardal awdurdod lleol

Bydd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn trawsnewid yn llwyr y ffordd y caiff gwasanaethau cymdeithasol eu darparu yng Nghymru i ddiwallu anghenion yr unigolyn a gwneud gwasanaethau'n gynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Bydd yn dod i rym ym mis Ebrill 2016.

Mae'r Ddeddf yn rhoi llais cryfach a rheolaeth wirioneddol i bobl dros y cymorth y mae ei angen arnynt i ddileu rhwystrau i'w llesiant. Mae'n canolbwyntio ar ymyrryd yn gynharach i atal anghenion rhag dod yn ddifrifol, ac mae'n hyrwyddo'r arfer o fuddsoddi mewn adnoddau yn y tymor byr i roi'r gwerth gorau i bwrs y wlad ar y cyfan.

Mae'r Ddeddf hefyd yn hyrwyddo integreiddio rhwng y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol i'r graddau mwyaf posibl er mwyn cyflawni canlyniadau llesiant gwell.

Mae'r Rheoliadau a'r cod ymarfer statudol yn darparu eglurder a chyfarwyddyd ynghylch adrannau 14 ac 15. Mae'r ddogfen frifio dechnegol hon yn rhoi crynodeb byr o'r ddyletswydd hon, ond nid dogfen gyfreithiol mohoni.

Key links:

Rheoliadau Gofal a Chymorth
(Asesiadau Poblogaeth) (Cymru) 2015
http://www.legislation.gov.uk/wsi/2015/1367/pdfs/wsi_20151367_mi.pdf

Rheoliadau Gofal a Chymorth
(Trefniadau Partneriaeth ar gyfer
Asesiadau Poblogaeth) (Cymru) 2015
http://www.legislation.gov.uk/wsi/2015/1495/pdfs/wsi_20151495_mi.pdf

Mae'r rheoliadau hyn wedi cael eu gwneud a byddant yn dod i rym ar 6 Ebrill 2016

Cod Ymarfer Rhan 2 (Swyddogaethau
Cyffredinol)
<http://gov.wales/docs/dhss/publications/151218part2cy.pdf>

Cyhoeddwyd y cod ymarfer hwn o dan Ran 2 o'r Ddeddf ar 18 Rhagfyr 2015. Mae'n dod i rym ar 6 Ebrill 2016.

Crynodeb o'r ddyletswydd

Mae'r Ddeddf yn darparu bod awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol yn mynd ati ar y cyd i gynnal asesiad poblogaeth. Ceir dyletswydd hefyd i awdurdodau lleol ddarparu neu drefnu

ystod o wasanaethau ataliol i ateb dibenion amrywiol.

Mae **Rhan 2, Adran 14** o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ('Y Ddeddf') yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol (BILlau) i asesu anghenion y boblogaeth am ofal a chymorth, gan gynnwys anghenion gofalwyr am gymorth. Gelwir yr asesiad hwn yn **asesiad poblogaeth**.

Fel rhan o'r asesiad poblogaeth hwn, mae'n rhaid i awdurdodau lleol a BILlau adnabod ystod a lefel y **gwasanaethau ataliol** y mae eu hangen i ddiwallu'r anghenion am ofal a chymorth a adnabuwyd.

Mae **Rhan 2, Adran 15** o'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu ystod o wasanaethau ataliol neu drefnu bod gwasanaethau o'r fath yn cael eu darparu i ateb dibenion amrywiol mewn perthynas ag atal neu achosi oedi yn natblygiad anghenion pobl am ofal a chymorth. Mae'n rhaid i Fyrddau Iechyd Lleol roi sylw i bwysigrwydd ateb y dibenion hyn hefyd.

Beth mae'n ei wneud?

Bydd cwblhau'r asesiad poblogaeth yn sicrhau bod awdurdodau lleol a BILlau yn mynd ati ar y cyd i lunio sylfaen dystiolaeth eglur a phenodol mewn perthynas ag anghenion am ofal a chymorth i oleuo penderfyniadau cynllunio a phenderfyniadau gweithredol amrywiol.

Cydweddiad â'r Ddeddf

Mae atal yn thema allweddol yn y Ddeddf. Mae'n hollbwysig nad yw gwasanaethau gofal a chymorth yn disgwyl nes bod pobl mewn argyfwng cyn eu bod yn ymateb.

Bydd yr asesiad poblogaeth yn ei gwneud yn bosibl dyrannu cyllidebau ac adnoddau'n effeithiol i fuddsoddi mewn mynd i'r afael â materion mewn modd ataliol.

Yr asesiad poblogaeth hwn yw'r man cychwyn o ran sut y dylai awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol weithio mewn partneriaeth i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y drefn o ddarparu gwasanaethau. Mae'r Ddeddf yn galluogi Gweinidogion Cymru i sefydlu strwythurau (megis trefniadau partneriaeth pellach a byrddau partneriaeth) i'w gwneud yn bosibl darparu gwasanaethau integredig i ymateb i'r asesiad poblogaeth.

Mae'r dyletswyddau hyn hefyd yn cefnogi adrannau eraill o'r Ddeddf, gan gynnwys y gofyniad i hyrwyddo mentrau cymdeithasol, mentrau cydweithredol, gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr a'r trydydd sector ynghyd â'r gofyniad i adnabod y gofal a'r cymorth, trwy ddarparu gwybodaeth am y mathau o wasanaethau y mae eu hangen.

Sut mae hyn yn gweithio yn ymarferol?

Mae'n rhaid i Fyrddau Iechyd Lleol a'r holl awdurdodau lleol o fewn ardal y BILl hwnnw sefydlu trefniant partneriaeth i gynnal asesiad poblogaeth. Bydd y trefniadau hyn yn ei gwneud yn bosibl cynhyrchu saith adroddiad asesiad poblogaeth cyfun.

Mae'n rhaid i awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol:

- sefydlu gweithdrefn ar gyfer ymgysylltu â phobl (gan gynnwys oedolion a phlant ag anghenion am ofal a chymorth, gofalwyr, a rhieni i blant ag anghenion am ofal a chymorth) i lunio adroddiad asesiad poblogaeth;

- ymgysylltu â darparwyr gwasanaethau eraill, gan gynnwys y trydydd sector a'r sector preifat;
- rhoi sylw i'r datganiad o ganlyniadau llesiant (a gyhoeddir dan adran 8 o'r Ddeddf) wrth gynnal asesiad.
- mynd ati ar y cyd i lunio a chyhoeddi adroddiad ar ganlyniad yr asesiad poblogaeth. Mae'n rhaid i'r adroddiadau asesiad poblogaeth cyntaf gael eu cyhoeddi erbyn **1 Ebrill 2017**;

Mae'n rhaid defnyddio adroddiadau asesiad poblogaeth i oleuo'r broses o lunio cynlluniau llesiant lleol newydd, fel sy'n ofynnol yn ôl Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Rhagor o wybodaeth

Cod ymarfer mewn perthynas â'r holl ddyletswyddau sydd wedi'u cynnwys yn Rhan 2 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Hefyd, bydd pecyn cymorth yn cael ei ddatblygu i roi cymorth ychwanegol i awdurdodau lleol a BILlau lunio adroddiadau asesiad poblogaeth. Disgwylir i hwn fod ar gael yng ngwanwyn 2016.

Mae dolenni i'r rheoliadau a'r cod ymarfer ar gael yn:

Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesiadau Poblogaeth) (Cymru) 2015:

<http://www.legislation.gov.uk/wsi/2015/1367/made>

Rheoliadau Gofal a Chymorth (Trefniadau Partneriaeth ar gyfer Asesiadau Poblogaeth) (Cymru) 2015:

<http://www.legislation.gov.uk/wsi/2015/1495/contents/made>

Y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) – Cod Ymarfer ynghylch Rhan 2:

<http://gov.wales/topics/health/socialcare/act/?lang=cy>